YR EGLWYS yng NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

# Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

## Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Cynnwys


**Adroddiad yr Ymddiriedolwr** ..... **1**

**Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr** ..... **6**

**Gwybodaeth Weinyddol** ..... **7**

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i'r Ymddiriedolwr** ..... **8**

**Datganiad o Gyfanswm y Derbyniadau** ..... **10**

**Datganiad o Newid mewn Asedau Net** ..... **10**

**Mantolen** ..... **11**

**Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol** ..... **12**

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Adroddiad yr Ymddiriedolwr

### Strwythur

Cynllun buddsoddi cyfunol yw Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru (Corff y Cynrychiolwyr) dan gynllun a gymeradwywyd gan y Comisiwn Elusennau ar 11 Rhagfyr 2008, er mwyn buddsoddi arian sy'n perthyn i unrhyw elusen y mae Corff y Cynrychiolwyr yn Ymddiriedolwr arni neu sydd o fudd i elusen o'r fath.

Corff y Cynrychiolwyr yw ymddiriedolwyr y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin, ac mae wedi penodi ei Bwyllgor Buddsoddi i'w goruchwylio. Bydd y Pwyllgor Buddsoddi yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, yn derbyn adroddiadau chwarterol oddi wrth Reolwr y Gronfa, ac yn monitro strategaeth y Gronfa a'i pherfformiad.

Rheolir y Gronfa gan Reolwr y Gronfa (Newton Investment Management) yn unol â Chytundeb Rheoli Buddsoddiadau, ac fe'i gweinyddir gan staff Corff y Cynrychiolwyr.

### Disgrifiad o'r Gronfa

Mae'r Gronfa'n addas at fuddsoddi gan blwyfi pan ddymunir twf hirdymor mewn cyfalaf, lefel resymol o incwm a chynnydd mewn incwm. Nid yw'n addas i ddal arian y mae'n debyg y bydd ei angen yn y dyfodol agos.

Gellir buddsoddi cronfeydd plwyfol ac ymddiriedolaethau cymynroddion a rhoddion yn y Gronfa.

Rhennir yr ymddiriedolaethau a ddelir yn y Gronfa yn ymddiriedolaethau gwariadwy ac ymddiriedolaethau anwariadwy. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe grynhoir incwm ymddiriedolaethau gwariadwy ac yna naill ai ei ail-fuddsoddi neu ei dalu i'r plwyf. Fel rheol, dosberthir incwm ymddiriedolaethau anwariadwy yn chwarterol.

### Adroddiad Buddsoddi

Amcanion Buddsoddi

Ystyrir y Gronfa yn gyfrwng buddsoddi tymor canol i hirdymor i ymddiriedolaethau a chronfeydd plwyfol, a'i nod a'i diben yw:

- cydbwyso lefelau cynaliadwy o incwm â thwf mewn cyfalaf;
- cael y cyfanswm derbyniadau uchaf posibl heb risg dianghenraid;
- gweithredu o fewn cyfyngiadau Polisi Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yng Nghymru.

### Meincnod Perfformiad

Caiff perfformiad y Gronfa ei fesur ar sail cyfanswm enillion (yr enillion cyfunol o incwm a chyfalaf) yn erbyn y Teknometry CIG Charity Fund Universe a chyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Buddsoddi bob chwarter.

Mae'r Teknometry CIG Charity Fund Universe yn cynnwys nifer fawr o gronfeydd elusen ac felly mae'n darparu cymhariaeth o berfformiad y Gronfa yn erbyn cyfartaledd enillion cronfeydd elusennau eraill.

### Polisi Buddsoddi Moesegol

Buddsoddir y Gronfa yn unol â Pholisi Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yng Nghymru, a mabwysiadwyd fersiwn ddiwygiedig ohono gan Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Polisi'n gwahardd buddsoddi mewn cwmnïau y mae a wnelont ag arfau, gweithgareddau benthyca rheibus a phornograffi, yn cyfyngu ar fuddsoddi mewn cwmnïau y mae a wnelont â gamblo, alcohol a thybaco, glo thermol a thardywod ac yn ceisio hyrwyddo graddfeydd da o lywodraethu corfforaethol a chyfrifoldeb cymdeithasol. Ceir copi llawn o'r Polisi yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, ac y mae hefyd ar wefan yr Eglwys yn: https://cym.eglwysyngnghymru.org.uk/.

### Rheolwyr Buddsoddi

Penodwyd Newton Investment Management (Newton) i reoli'r gronfa fuddsoddi yn y gyfnewidfa stoc yn 2010 ar fandad Aml-Asedau Byd-eang.

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Adroddiad yr Ymddiriedolwr

### Asedau

Dyma amrediad y dosbarthiadau asedau am 2018:

| Dosbarth Asedau | Ecwitïau'r DU | Ecwitïau Tramor | Llog Sefydlog | Amgen | Arian |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad Dosbarthu | 15-35% | 10-55% | 15-35% | 0-10% | 0-25% |
| Dyraniad ar 31/12/18 | 26% | 37% | 21% | 10% | 6% |

Roedd y Gronfa wedi'i buddsoddi yn y sectorau ecwitïau canlynol ar 31 Rhagfyr 2018:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ariannol | 12.3% | Gofal Iechyd | 5.6% |
| Technoleg | 8.5% | Olew a Nwy | 4.8% |
| Gwasanaethau Defnyddwyr | 8.0% | Deunyddiau Sylfaenol | 4.7% |
| Nwyddau Defnyddwyr | 7.1% | Cyfleustodau | 2.5% |
| Diwydiannau | 6.9% | Telathrebu | 2.4% |

Y deg taliad uchaf yn y Gronfa ar 31 Rhagfyr 2018 oedd:

| Stoc | Gwerth £000 | % o'r Gronfa |
|---|---|---|
| 0% Bil Trysorlys y DU 2019 | 2,676 | 5.1 |
| 3.25% Gilt Trysorlys y DU 2044 | 1,784 | 3.4 |
| Royal Dutch Shell Plc | 1,687 | 3.2 |
| 4.25% Stoc Trysorlys y DU 2036 | 1,032 | 2.0 |
| Applied Materials Inc | 1,005 | 1.9 |
| Infineon Technologies AG | 976 | 1.9 |
| Greencoat UK Wind Plc | 963 | 1.8 |
| 5% Stoc Trysorlys y DU 2025 | 928 | 1.8 |
| Unilever Plc | 928 | 1.8 |
| Bluefield Solar Income Fd Ltd | 924 | 1.8 |

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Adroddiad yr Ymddiriedolwr

Cynhyrchodd y Gronfa gyfanswm derbyniadau o –1.9% yn 2018 o gymharu ag enillion meincnod o –4.5% a chwyddiant o 2.7%.

Mae'r Gronfa wedi perfformio'n well na'r Meincnod dros y cyfnodau 3 a 5 mlynedd hyd at 31 Rhagfyr 2018 hefyd, gan gynhyrchu cyfanswm enillion blynyddol o 8.2% a 7.5% yn y drefn honno.

### Perfformiad

| Cyfanswm derbyniadau blynyddol hyd at 31 Rhagfyr | 2018 % | 2017 % | 2016 % | 3 years % | 5 years % |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa | -1.9 | 10.7 | 16.5 | 8.2 | 7.5 |
| Meincnod | -4.5 | 10.1 | 13.0 | 5.9 | 4.9 |
| Mynegai Prisiau Manwerthu | 2.7 | 4.1 | 2.5 | 3.0 | 2.3 |

### Arolwg o'r Farchnad yn 2018

Roedd buddsoddwyr yn wynebu amrywiaeth o heriau dros gyfnod lle'r oedd gwleidyddiaeth a pholisi ariannol yn dylanwadu'n sylweddol ar farchnadoedd ariannol.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o 2017, roedd chwarter cyntaf 2018 yn gyfnod anwadal iawn yn y marchnadoedd ecwiti byd-eang. Ar ôl dechrau'r flwyddyn yn wych, gyda'r S&P 500 yn cofrestru cynnydd o bron i 6% ym mis Ionawr yn unig (yn nhermau arian cyfred lleol), roedd marchnadoedd mis Chwefror yn anwadal eto wrth i bryderon am ddata chwyddiant cryfach na'r disgwyl ac arenillion bond uwch ysgogi gwerthu ar draws y rhan fwyaf o ddosbarthiadau o asedau. Gwelwyd cynnwrf yn y farchnad eto ym mis Mawrth, o ganlyniad i ofnau o ryfel fasnach fyd-eang rhwng UDA a Tsieina, ynghyd â gwendid mewn stociau technoleg, y rhai a oedd wedi codi'r farchnad yn uwch yn ystod ei gynnydd parabolig.

Parhaodd yr amodau i fod yn heriol i fuddsoddwyr incwm sefydlog dros ail chwarter y flwyddyn wrth i Gronfa Ffederal Wrth Gefn UDA barhau i gynyddu cyfraddau llog. Yn y cyfamser, profodd rhethreg ddiffyndollol yr Arlywydd Trump ar fasnach yn elfen gyson gydol y cyfnod. Roedd buddsoddwyr hefyd yn canolbwyntio eu sylw ar yr Eidal, lle'r arweiniodd yr argyfwng cyfansoddiadol ar ddiwedd mis Mai at gynnwrf yn y marchnadoedd am gyfnod byr. Yn y cyd-destun gwleidyddol mwy cynhyrfus hwn, roedd amodau macroeconomaidd byd-eang yn ymddangos rhywfaint yn llai bywiog a chydamserol nag ar ddechrau'r flwyddyn, o ystyried yr arafu a oedd yn digwydd i dwf economaidd Ardal yr Ewro a chyfres o hyrddiau yn y byd sy'n datblygu. Ar nodyn mwy cadarnhaol, parhaodd economi UDA i gyflawni wrth iddi elwa ar fanteision toriadau trethi 2017, er bod chwyddiant cynt mewn costau a llai o gyflenwad llafur wedi dechrau pwyso ar allu corfforaethau i wneud elw mewn rhai ardaloedd. Cafwyd llai o dderbyniadau o farchnadoedd ecwiti byd-eang dros y chwarter yn nhermau arian cyfred lleol, er bod perfformiad gwan y bunt wedi bod o fantais i fuddsoddwyr yn y DU.

Parhaodd marchnad stoc yr Unol Daleithiau i weld llawer o gynnydd, yn deillio o enillion corfforaethol cadarn yn bennaf, gydol trydydd chwarter 2018, a hynny o ystyried perfformiad cymysg mynegeion ecwiti yn fwy cyffredinol. Cafodd marchnadoedd oedd yn datblygu, yn arbennig, eu llethu gan yr arafu yng nghyflymder twf credyd Tsieina, ofnau ynghylch pa mor agored i niwed oeddynt yn sgil tynhau polisi ariannol UDA, a phryderon am ganlyniadau posibl tensiynau yn y farchnad fyd-eang. Roedd ymadawiad arfaethedig y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn bryder sylweddol i fuddsoddwyr, tra bod gwleidyddiaeth yr Eidal wedi gwneud marchnadoedd yn anwadal eto gyda chynlluniau gwario'r llywodraeth glymblaid yn bygwth torri trothwyon diffyg yr UE. Gwelwyd y marchnadoedd incwm sefydlog yn gostwng rhywfaint, mewn termau cyfanswm derbyniadau, dros y cyfnod, er bod credyd wedi cael chwarter cymharol gadarn. Yn y cyd-destun hwn, parhaodd y banciau canolog gyda'u trywydd tynhau, gyda Chronfa Ffederal wrth Gefn yr Unol Daleithiau yn codi trethi am y trydydd tro yn 2018.

Roedd chwarter olaf 2018 yn anodd iawn gan i ni weld y gwerthiannau cyflym mwyaf sylweddol yn y marchnadoedd ecwitïau ers degawdau.

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Adroddiad yr Ymddiriedolwr

Digwyddodd y difrod mwyaf ym mis Hydref ac roedd yn deillio, i raddau helaeth, o fynegiant newydd o naratif hebogaidd gan swyddogion y Gronfa Ffederal wrth Gefn. Roedd y teimlad ansefydlog hwn tuag at asedau risg yn digwydd ar adeg pan roedd hylifedd y banciau canolog yn parhau i fod yn absennol. Ym mis Tachwedd, daeth rhywfaint o seibiant ac adfywiad byrhoedlog yn y marchnadoedd stoc wrth i Jerome Powell, cadeirydd y Gronfa Ffederal, gymedroli ei safiad cynharach. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr, fe wnaeth ecwitïau byd-eang ddisgyn i'w hisaf am y flwyddyn wrth i naws sylwebaeth edrych ymlaen y Gronfa Ffederal unwaith eto gynhyrfu buddsoddwyr. Parhaodd pryderon gwleidyddol hefyd i gyfrannu at y dirywiad ehangach, yn enwedig yr anghydfod masnach parhaus rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina, tra yn Ewrop, parhaodd yr ansicrwydd ynghylch Brexit, gyda Phrif Weinidog y DU Theresa May yn gorfod gohirio'r bleidlais seneddol ar ei chytundeb arfaethedig gyda'r UE. Yn yr amgylchedd hwn, roedd marchnadoedd bondiau'r llywodraeth yn y DU ac UDA yn fwy gwydn, gan gynhyrchu elw cadarnhaol dros y chwarter.

Roedd cryfder sylweddol y ddoler Americanaidd yn golygu bod ecwitïau Gogledd America wedi adennill ychydig o elw positif o +0.8% i fuddsoddwyr wedi'u lleoli yn y DU dros y cyfnod o 12 mis. Roedd derbyniadau ecwiti'r holl ranbarthau eraill yn negatif: roedd ecwitïau Asia a'r Môr Tawel ac eithrio Siapan yn -6.8%, ecwitïau Siapan a'r farchnad sy'n datblygu yn -8.9%, ac ecwitïau'r DU ac Ewrop ac eithrio'r DU yn -9.5% mewn sterling.

Bondiau llywodraeth tramor a berfformiodd orau dros y cyfnod o 12 mis, gan ddod ag enillion o +5.9%, er bod hyn yn deillio'n bennaf o symudiadau mewn arian cyfred yn hytrach na ffactorau mwy sylfaenol. Roedd derbyniadau o giltiau a bondiau corfforaethol yn is, gan ddod ag enillion o +0.6 a -1.6% mewn sterling.

### Strategaeth Fuddsoddi

Buddsoddir y portffolio mewn daliadau uniongyrchol, yn ecwitïau a bondiau fel ei gilydd, er mwyn cydymffurfio â Pholisi Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yng Nghymru. Er mwyn cynnal proffil risg priodol y portffolio, mae'r daliadau'n amrywio o ran sector, diwydiant, daearyddiaeth ac arian cyfred. Yn unol â chyngor y Comisiwn Elusennau, nid oes yr un daliad (ac eithrio ym mondiau llywodraeth y DU) sy'n werth mwy na 5% o'r portffolio.

### Rhagolwg

Mae'r rhagolwg ar gyfer cyfraddau twf byd-eang, prisiadau arian cyfred cymharol a derbyniadau o farchnadoedd ariannol yn parhau i fod yn gynyddol ddibynnol ar sut mae gwledydd yn rhyngweithio a masnachu â'i gilydd. Yn y tymor byr, mae canlyniad trafodaethau Brexit a datrysiad i'r anghydfod masnach rhwng UDA a Tsieina yn debygol o fod yn ffactorau allweddol sy'n sbarduno hyder a dychweliadau'r farchnad. Mae prisiadau'r farchnad ecwiti wedi unioni rhywfaint dros y cyfnod, ac rydym yn disgwyl gweld cyfraddau twf a disgwyliadau elw is. Mae'r Gronfa wedi perfformio'n dda ar sail gymharol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd i fanteisio ar ardaloedd a ffefrir os a phan fydd prisiadau'n atyniadol.

Fodd bynnag, mae ein themâu yn nodi llawer o gyfleoedd twf strwythurol hirdymor o hyd i'n buddsoddwyr fanteisio arnynt a byddwn yn parhau i geisio dod o hyd i'r rhain wrth asesu'r rhagolwg am dwf a pha mor briodol yw prisiadau'r asedau sydd gennym yn y portffolio.

### Rhybudd o Risg

Gall gwerth y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin a'r incwm sy'n deillio ohoni ddisgyn yn ogystal â chodi, ac nid oes unrhyw warant. Golyga hyn ei bod yn bosibl na chaiff plwyfi y swm a fuddsoddwyd yn wreiddiol yn ôl. Nid yw perfformiad yn y gorffennol yn warant o enillion yn y dyfodol. Bydd gwerth y cyfranddaliadau yn y Gronfa yn adlewyrchu'r newidiadau ym mhris dosbarthiadau'r asedau y buddsoddir y Gronfa ynddynt a'r symudiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor.

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Adroddiad yr Ymddiriedolwr

Ystadegau'r Gronfa **Yn seiliedig ar bris canolig ac nid ar bris y cynnig.*

| Dyddiad Prisio | Cyfranddaliadau yn y Dyroddiad | Gwerth Clir yr Ased* (ceiniog y cyfranddaliad) | Difidend Blynyddol (ceiniog y cyfranddaliad) | Llog | Cyfanswm Gwerth y Gronfa £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 Ionawr 2009 | 25,962,753 | 100.00 | | | |
| 31 Rhagfyr 2009 | 27,008,033 | 118.49 | 3.61 | 3.05% | £32,002 |
| 31 Rhagfyr 2010 | 26,940,059 | 124.41 | 4.02 | 3.23% | £33,517 |
| 31 Rhagfyr 2011 | 26,908,705 | 118.32 | 4.47 | 3.78% | £31,839 |
| 31 Rhagfyr 2012 | 27,224,411 | 125.54 | 4.30 | 3.43% | £34,177 |
| 31 Rhagfyr 2013 | 27,509,681 | 141.72 | 4.09 | 2.89% | £38,986 |
| 31 Rhagfyr 2014 | 28,824,005 | 152.75 | 4.16 | 2.72% | £44,030 |
| 31 Rhagfyr 2015 | 29,033,039 | 150.36 | 4.35 | 2.89% | £43,654 |
| 31 Rhagfyr 2016 | 29,207,207 | 169.91 | 4.24 | 2.49% | £49,627 |
| 31 Rhagfyr 2017 | 29,426,621 | 183.17 | 4.25 | 2.32% | £53,900 |
| 31 Rhagfyr 2018 | 30,094,661 | 174.69 | 4.33 | 2.48% | £52,574 |

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr

Mae'r Ymddiriedolwr (Corff y Cynrychiolwyr) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol ac â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (yr Arfer a Dderbynnir yn Gyffredin yn y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn gofyn i'r Ymddiriedolwr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin ac o'r incwm clir, yr enillion cyfalaf clir a'r newid yn yr asedau clir dros y cyfnod hwn.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, rhaid i'r Ymddiriedolwyr:

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso gyda chysondeb;
- dilyn dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arfer a Argymhellir i Gronfeydd Awdurdodedig a gyhoeddwyd gan yr IMA ym Mai 2014 a'u diweddaru yn Rhagfyr 2015;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- datgan a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu perthnasol, ac eithrio unrhyw wahaniaethau a ddatgelir ac a esbonnir yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, onid yw'n anaddas cymryd yn ganiataol y bydd y Gronfa'n parhau i weithredu.

Mae'r Ymddiriedolwr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol a fydd yn dangos yn rhesymol gywir ar unrhyw amser sefyllfa ariannol y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin ac yn galluogi'r Ymddiriedolwr i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008 a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolwr hefyd yn gyfrifol am warchod asedau'r Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin ac, o ganlyniad, am gymryd camau rhesymol i rwystro ac i ddatgelu twyll ac afreoleidd-dra.

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Gwybodaeth Weinyddol

### Buddsoddi yn y Gronfa

Gellir buddsoddi cymynroddion, arian plwyfol ac ymddiriedolaethau yn y Gronfa trwy gwblhau gweithred ymddiriedolaeth yn penodi Corff y Cynrychiolwyr yn Ymddiriedolwr. Gellir cael copi gan Gyfreithiwr Ymddiriedolaeth Corff y Cynrychiolwyr, Miss Natasha Aldridge.

Buddsoddir bob chwarter (Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr) ar sail prisiant o'r gronfa ar ddiwedd y chwarter.

Amodau'r rhodd neu'r gymynrodd a fydd yn penderfynu a fuddsoddir yr arian fel arian gwariadwy neu arian anwariadwy, a hynny, yn ei dro, fydd yn penderfynu a delir incwm yn chwarterol ar gais y plwyf.

### Incwm

Os oes incwm ar gael at amcanion penodol, fel atgyweirio'r eglwys, fe'i dosberthir pan dderbynnir y dogfennau canlynol:

a) copi o Gofnod y Cyngor Plwyf Eglwysig yn datgan bod y Cyngor yn dymuno cael swm penodol o'r arian a ddelir mewn ymddiriedolaeth (nodwch enw neu gyfeirnod PT yr ymddiriedolaeth) a pham mae angen yr arian;

b) llythyr cais wedi'i lofnodi gan y periglor a'r ddau warden eglwys sy'n gofyn am swm penodol, pam mae angen yr arian ac enw/ cyfeirnod y gronfa ymddiriedolaeth y mae'r cyfranddaliadau i'w gwerthu ohoni;

c) dyfynbris neu anfoneb am y swm y gofynnwyd amdani o leiaf. Gan fod yr Ymddiriedolwyr dan ddyletswydd ymddiriedol i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn unol â thelerau'r ymddiriedolaeth os caiff dyfynbrisiau, yn hytrach nag anfonebau, eu cyflwyno, bydd arian yn cael ei ryddhau ar ôl derbyn anfoneb daledig neu, fel arall, gallwn drefnu talu'r anfoneb yn uniongyrchol i'r contractwr. Yna gellir ffeilio'r anfonebau fel tystiolaeth bod yr arian wedi'i ddefnyddio yn unol â thelerau'r ymddiriedolaeth.

### Datganiadau Blynyddol yr Ymddiriedolaeth

Pan na fydd plwyf yn derbyn incwm bob chwarter na hysbysiad dosbarthu blynyddol, fe gaiff ddatganiad blynyddol gan yr ymddiriedolaeth ar ddiwedd pob blwyddyn yn dangos yr incwm a'r gwariant a phob trafod a fu ar gyfranddaliadau'r ymddiriedolaeth.

Bydd y wybodaeth hon yn angenrheidiol ar gyfer cyfrifon blynyddol y plwyf.

Bydd plwyfi sy'n derbyn incwm chwarterol yn derbyn hysbysiad dosbarthu ar ddiwedd pob blwyddyn yn dangos nifer eu cyfranddaliadau yn yr ymddiriedolaeth, a'u gwerth, a bydd y wybodaeth honno'n ddigonol ar gyfer cyfrifon blynyddol y plwyf.

### Tynnu Cyfalaf neu Incwm o'r Gronfa

Os yw telerau'r ymddiriedolaeth yn caniatáu codi arian cyfalaf a chronedig, yna bydd angen cymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr fel arfer. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn a bydd angen y dogfennau canlynol arnynt:

a) copi o Gofnod y Cyngor Plwyf Eglwysig yn datgan bod y Cyngor yn dymuno cael swm penodol o'r arian a ddelir mewn ymddiriedolaeth (nodwch enw neu gyfeirnod PT yr ymddiriedolaeth) a pham mae angen yr arian;

b) llythyr cais wedi'i lofnodi gan y periglor a'r ddau warden eglwys sy'n gofyn am swm penodol, pam mae angen yr arian ac enw/ cyfeirnod y gronfa ymddiriedolaeth y mae'r cyfranddaliadau i'w gwerthu ohoni;

c) dyfynbris neu anfoneb am y swm y gofynnwyd amdani o leiaf. Gan fod yr Ymddiriedolwyr dan ddyletswydd ymddiriedol i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn unol â thelerau'r ymddiriedolaeth os caiff dyfynbrisiau, yn hytrach nag anfonebau, eu cyflwyno, bydd arian yn cael ei ryddhau ar ôl derbyn anfoneb daledig neu, fel arall, gallwn drefnu talu'r anfoneb yn uniongyrchol i'r contractwr. Yna gellir ffeilio'r anfonebau fel tystiolaeth bod yr arian wedi'i ddefnyddio yn unol â thelerau'r ymddiriedolaeth.

Dylid cyfeirio cwestiynau am fuddsoddiadau a chodi arian o'r gronfa at Miss Natasha Aldridge
Ffoniwch 029 2034 8230 neu e-bostiwch natashaaldridge@churchinwales.org.uk

**Cynghorwyr Buddsoddi:**
Newton Investment Management
BNY Mellon Financial Centre
160 Queen Victoria Street
Llundain
EC4V 4LA

**Archwilwyr Annibynnol:**
Haysmacintyre LLP
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

**Gweinyddiaeth Gyffredinol:**
Louise Davies
Pennaeth Cyllid
2 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i'r Ymddiriedolwr

### Barn

Rydym ni wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018 sy'n cynnwys y Datganiad o Gyfanswm y Derbyniadau, Datganiad o Newid mewn Asedau Net, y Fantolen a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yn ofynnol yn ôl y gyfraith ac yn ôl Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon 102 ar Adrodd Ariannol, y Safon Adrodd ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2018 ac o newidiadau clir cronfeydd y Gronfa ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi eu paratoi'n unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

### Sail ein barn

Fe'n penodwyd fel archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol a wneir neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y Gronfa yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn ni.

### Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr ar dudalen 6, mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y rheolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwr o'r farn sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am asesu gallu'r Gronfa i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion, fel sy'n berthnasol, i fusnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifo oni bai bod yr ymddiriedolwr naill ai'n bwriadu dod â'r Gronfa i ben neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt ddewis arall realistig ond i wneud hynny.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn ni. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriadau ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilydd.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'r ISAs (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i chi amdanynt lle:

- nad yw defnydd yr ymddiriedolwr o'r sail busnes gweithredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau yn briodol; neu
- nad yw'r ymddiriedolwr wedi datgelu unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd yn y datganiadau ariannol a all achosi amheuaeth arwyddocaol am allu'r Gronfa i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifo am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

## Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd yn Adroddiad yr Ymddiriedolwr. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau y nodir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu sy'n gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol fel arall. Os byddwn yn gweld anghysondebau neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol o'r fath, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall. Os, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i gyflawni, ein bod yn dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni roi gwybod am y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Materion eraill y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt trwy eithriad

Nid oes gennym ddim i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae'n ofynnol yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 i ni adrodd i chi os tybiwn:

- nad yw'r Gronfa wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw; neu
- nad yw datganiadau ariannol y Gronfa yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

## Defnydd o'n hadroddiad

Darperir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwr yr elusen yn unig, yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel ein bod yn gallu datgan i ymddiriedolwr yr elusen y materion hynny y mae gofyn i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad Archwilydd ac nid i unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawn a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu'r farn a ffurfiwyd gennym i unrhyw un heblaw ymddiriedolwyr yr elusen fel corff.

Haysmacintyre LLP
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Datganiad o Gyfanswm y Derbyniadau

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018

| | | 2018 | 2017 |
|---|---|---|---|
| | Nodiadau | £ | £ |
| **Incwm** | | | |
| (Colledion) / Enillion Cyfalaf Clir | 2 | **(1,359,445)** | 4,195,831 |
| Refeniw | 3 | **1,497,213** | 1,398,693 |
| **Gwariant** | 4 | **(202,272)** | (201,813) |
| **Cyfanswm y Derbyniadau cyn dosbarthu** | | **(64,504)** | 5,392,711 |
| Dosbarthiad i Gyfranddalwyr | 5 | **(1,294,941)** | (1,196,879) |
| **Newid yn yr asedau clir i'w priodoli i Gyfranddalwyr o Weithgareddau Buddsoddi** | | **(1,359,445)** | 4,195,832 |

## Datganiad o'r Newid mewn Asedau Clir i'w Priodoli i Gyfranddalwyr

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2018

| | | 2018 | 2017 |
|---|---|---|---|
| | Nodiadau | £ | £ |
| Asedau clir cychwynnol i'w priodoli i Gyfranddalwyr | | **53,787,391** | 49,591,559 |
| Newid mewn asedau clir i'w briodoli i Gyfranddalwyr o Weithgareddau Buddsoddi | | **(1,359,445)** | 4,195,832 |
| **Asedau clir terfynol i'w priodoli i Gyfranddalwyr** | | **52,427,946** | 53,787,391 |

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Mantolen

## Ar 31 Rhagfyr 2018

| | | 2018 | 2017 |
|---|---|---|---|
| | Nodiadau | £ | £ |
| **Buddsoddiadau:** | | | |
| Gwarantau'r Gyfnewidfa Stoc | 6 | **49,491,647** | 49,211,851 |
| Adneuon ar y Farchnad Arian | 7 | **3,102,431** | 4,714,681 |
| | | **52,594,078** | 53,926,532 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Dyledwyr | 8 | **168,464** | 176,946 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 9 | **(334,596)** | (316,087) |
| Dyledion Cyfredol Clir | | **(166,132)** | (139,141) |
| **Asedau Clir** | | **52,427,946** | 53,787,391 |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Asedau Clir i'r priodoli i Gyfranddalwyr | | **52,427,946** | 53,787,391 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 10 i 16 gan Gorff y Cynrychiolwyr ar 27 Mehefin 2019.

James Turner, Cadeirydd

Geoff Moses, Ymddiriedolwr

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

### 1. Polisïau Cyfrifyddu

Paratowyd datganiadau ariannol Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin y r Eglwys yng Nghymru ar y sail bod y gronfa'n parhau i weithredu yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" ac a weithredir drwy'r gyfraith (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig). Rhoddir isod grynodeb o'r prif bolisïau cyfrifyddu ac fe'u cymhwyswyd yn gyson.

**a) Sail y Paratoi**
Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â safon cost hanesyddol wedi'i addasu gan yr ailbrisio blynyddol ar asedau buddsoddi ac yn unol â'r datganiad o Arfer a Argymhellir at Gronfeydd Awdurdodedig a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Rheoli Buddsoddiadau ym mis Mai 2014 (IMA SORP 2014) fel y'i diwygiwyd / diweddarwyd yn Rhagfyr 2015.

**b) Cydnabod Refeniw**
Cronnwyd yn llawn y llog ar fenthyciadau tymor byr ac adneuon. Credydwyd llogau a difidendau ar warantau'r gyfnewidfa stoc ar ddyddiad eu derbyn.

**c) Gwariant**
Cronnwyd pob gwariant yn llawn.

**ch) Buddsoddiadau**
Datgenir gwarantau'r gyfnewidfa stoc ar brisiau cynnig y farchnad ar 31 Rhagfyr 2018. Trosir gwarantau arian tramor i sterling ar y raddfa gyfnewid ar ddyddiad y fantolen.

**d) Dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau cyfrifyddu**
Nid yw rheolwyr wedi gwneud unrhyw ddyfarniadau cyfrifyddu yn y gyfres hon o ddatganiadau ariannol na'r cyfnod blaenorol.

| 2. Enillion Cyfalaf Clir / (Colledion) | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Enillion a wireddwyd | **2,301,302** | 1,331,780 |
| (Colledion) / enillion nas gwireddwyd | **(4,882,757)** | 2,475,970 |
| Cyfraniadau clir | **1,222,010** | 388,081 |
| | **(1,359,445)** | 4,195,831 |

| 3. Refeniw | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Gwarantau'r Gyfnewidfa Stoc | **1,495,966** | 1,398,000 |
| Llog ar Adneuon y Farchnad Arian | **1,247** | 693 |
| | **1,497,213** | 1,398,693 |

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

| 4. Gwariant | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffioedd rheolwr y gronfa | **185,107** | 181,391 |
| Ffioedd ceidwad | **9,305** | 10,942 |
| Costau cynnal meddalwedd | **2,220** | 2,124 |
| Ffioedd mesur perfformiad | **5,640** | 7,356 |
| | **202,272** | 201,813 |

| 5. Dosbarthiad i Gyfranddalwyr | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Talwyd | **1,008,990** | 931,635 |
| Cynigiwyd | **285,951** | 265,244 |
| | **1,294,941** | 1,196,879 |

| 6. Gwarantau'r Gyfnewidfa Stoc | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Gwerth y farchnad ar 1 Ionawr | **49,211,851** | 45,709,674 |
| Ychwanegwyd | **18,985,261** | 16,655,635 |
| Gwaredwyd | **(13,822,708)** | (15,629,428) |
| (Lleihad) / cynnydd clir ar adbrisio | **(4,882,757)** | 2,475,970 |
| Gwerth y farchnad ar 31 Rhagfyr | **49,491,647** | 49,211,851 |
| | | |
| Cost hanesyddol ar 31 Rhagfyr | **42,954,358** | 37,791,806 |
| Enillion nas gwireddwyd a gyfrifwyd ar sail hanesyddol | **6,537,288** | 11,420,045 |
| | | |
| Rhestrwyd yn y DU | **27,285,888** | 26,822,848 |
| Rhestrwyd dramor | **22,205,759** | 22,389,003 |
| | **49,491,647** | 49,211,851 |

# Cronfa Buddsoddiadau Cyff redin yr Eglwys yng Nghymru

## Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

| 7. Adneuon y Farchnad Arian | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyfalaf Buddsoddi a ddelir mewn arian | **2,936,300** | 4,575,540 |
| Adneuon ar y Farchnad Arian | **166,131** | 139,141 |
| | **3,102,431** | 4,714,681 |

| 8. Dyledwyr | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Symiau'n ddyledus gan Reolwyr y Gronfa | **168,464** | 176,946 |
| | **168,464** | 176,946 |

| 9. Credydwyr: symiau i'w talu o fewn blwyddyn | 2018 | 2017 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Symiau'n ddyledus i Gyfranddalwyr | **285,951** | 265,244 |
| Credydwyr eraill | **48,645** | 50,843 |
| | **334,596** | 316,087 |

## Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

### 10. Offerynnau Ariannol

Mae offerynnau ariannol y Gronfa'n cynnwys gwarantau a buddsoddiadau eraill, mantolenni ariannol a dyledwyr a chredydwyr sy'n codi'n uniongyrchol o'i gweithrediadau.

Y prif risgiau mae'r Gronfa'n eu hwynebu yn ei phortffolio o weithgareddau rheoli yw:
**a) Risg arian cyfred tramor**
**b) Risg pris y farchnad**

Mae'r polisïau ar gyfer rheoli'r risgiau hyn wedi'u crynhoi isod ac wedi'u cymhwyso trwy gydol y flwyddyn.

**a) Risg arian cyfred tramor**

Gall cyfran o asedau ariannol y Gronfa fod mewn arian cyfred penodedig ac eithrio sterling gyda'r canlyniad fod Datganiad Cyfanswm y Derbyniadau a Datganiad y Newid mewn Asedau Clir a briodolir i Gyfranddalwyr yn gallu cael eu heffeithio gan symudiadau mewn arian cyfred.

**Rheoli'r risg**

Mae Rheolwr y Gronfa yn monitro'r graddau mae'r Gronfa yn agored i arian cyfred tramor yn ddyddiol ac yn mesur y risg i'r Gronfa o fod yn agored i arian cyfred tramor.

**Sensitifrwydd arian cyfred tramor**

Mae'r tabl canlynol yn dangos sensitifrwydd yr elw net i Sterling yn erbyn Doler UDA a'r Ewro, ac yn rhagdybio cynnydd neu leihad o 10% (2017: 10%) ar Ddoler UDA a 5% (2017: 5%) mewn cyfraddau cyfnewid. Mae Doler UDA a'r Ewro yn cyfateb i 49% o elfen dramor y Gronfa.

Pennwyd y ganran hon ar sail anwadalwch marchnad y cyfraddau cyfnewid dros y deuddeg mis diwethaf. Seilir y dadansoddiad sensitifrwydd ar offerynnau ariannol arian cyfred tramor y Gronfa a ddaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

Pe bai Sterling wedi gwanhau dyma fyddai'r effaith wedi bod ar werth y buddsoddiadau:

| | **2018** | 2017 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Doler UDA | **705,448** | 926,373 |
| Yr Ewro | **38,222** | 234,524 |
| | **743,670** | 1,160,897 |

Pe bai sterling wedi cryfhau dyma fyddai'r effaith wedi bod ar werth y buddsoddiadau:

| | **2018** | 2017 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Doler UDA | **(705,448)** | (926,373) |
| Yr Ewro | **(38,222)** | (234,524) |
| | **(743,670)** | (1,160,897) |

## Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

### b) Risg Pris y Farchnad

Gall gwerth teg buddsoddiadau a ddelir gan y Gronfa amrywio yn sgil newidiadau i brisiau'r farchnad.

Mae Rheolwr y Gronfa'n asesu'r risg o fod yn agored i'r farchnad wrth wneud pob penderfyniad ar fuddsoddi, ac yn monitro lefel gyffredinol risg y farchnad ar y portffolio buddsoddi yn barhaus.

**Rheoli'r Risg**

Mae'r Pwyllgor Buddsoddi yn adolygu'r portffolio bob chwarter ac yn monitro cyfanswm yr elw ar y portffolio yn erbyn y meincnod.

**Sensitifrwydd risg yn sgil prisiau eraill**

Mae'r canlynol yn dangos sensitifrwydd yr elw clir am y flwyddyn a'r ecwiti i gynnydd neu leihad o 20% (2017: 20%) yng ngwerth teg ecwitïau'r Gronfa. Ystyrir y lefel hon o newid yn rhesymol seiliedig o bosibl ar arsylwadau o gyflwr y farchnad yn ystod y flwyddyn. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn seiliedig ar ecwitïau'r Gronfa ar ddyddiad y fantolen, gyda'r holl newidynnau eraill yn cael eu dal yn gyson.

| | **2018** | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cynnydd mewn gwerth teg £** | **Lleihad mewn gwerth teg £** | Cynnydd mewn gwerth teg £ | Lleihad mewn gwerth teg £ |
| Effaith ar dderbyniadau cyfalaf | **10,530,037** | **(10,530,037)** | 10,757,678 | (10,757,678) |

## 11. Trafodion Parti Perthynol

Mae Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn Ymddiriedolwr o'r Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin ac yn talu costau gweinyddol y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin gan gynnwys y ffi archwilio.